

Bethan Gwanas

HOLIADUR

ENW Bethan Evans sydd ar fy nhystysgrif geni i, ond Bethan Gwanas mae pawb yn fy ngalw i.

DYDDIAD GENI
Ionawr 16, 1962

BLE CAWSOCH CHI EICH GENI A'CH MAGU? Fy ngeni yn Nolgellau, a'm magu yn y Brithdir, pentref bach y tu allan i Ddolgellau.

BLE CAWSOCH CHI EICH ADDYSG? Ysgol Gynradd y Brithdir, yna Ysgol y Gader, Dolgellau. O, a thu allan i Neuadd Rhydymain ar nosweithiau'r aelwyd.

BETH ROEDDECH CHI'N EI HOFFI NEU'N EI GASÁU AM YR YSGOL?

Ro'n i'n casáu gwersi mathemateg, am fy mod i'n anobeithiol, ac roedd ein gwisg ysgol ni'n erchyll (tiwnics crimplin nefi blŵ a blowsys blodeuog). Ro'n i'n hoffi bechgyn Blwyddyn 11, gwersi Ffrangeg a chwaraeon, yn enwedig athletau – a sgwennu, wrth gwrs.

BETH OEDDECH CHI EISIAU BOD AR ÔL TYFU FYNY? Air hostess neu newyddiadurwr.

BETH OEDD EICH HOFF LYFR YN BLENTYN?

Brownie Tales, Enid Blyton. Wedyn mi wnes i wirioni efo comics fel Bunty, June a Jackie, a symud ymlaen wedyn at Stephen King.

BETH YW EICH HOFF DDIDDORDEBAU?

Darllen, ffilmiau, canwio môr a cherdded mynyddoedd.

BETH SY'N EICH GWNEUD CHI'N HAPUS?

Walnut whips. A chael fy nghanmol.

BETH SY'N EICH GWYLLTIO CHI?

Annhegwch, hiliaeth, malwod yn bwyta fy mlodau a phobol sy'n cymryd hanner awr i ddweud rhywbeth allen nhw ei ddweud mewn brawddeg.

PRYD DDECHREUSOCH CHI FEDDWL AM YSGRIFENNU?

Ar ôl sgwrs mewn tafarn gyda Twm Miall, awdur Cyw Haul.

PA UN OEDD EICH NOFEL CYNTAF? Amdani!

YDYCH CHI'N EI CHAEL HI'N HAWDD I YSGRIFENNU?

Nofelau, ydw, ond sgriptiau teledu – nac ydw.

BLE RYDYCH CHI'N YSGRIFENNU?

Ar fy laptop o flaen y ffenest yn y lolfa. Neu yn yr ardd os bydd hi'n braf.

O BLE RYDYCH CHI'N CAEL EICH SYNIADAU?

O brofiad bywyd yn gymysg â dychymyg hurt.

OES GANDDOCH CHI GYNGOR I RYWUN SY'N TRIO YSGRIFENNU?

Daliwch ati, byddwch yn gynnig, osgowch y ffris diangen a pharchwch y darlennydd.

OES RHAI O'CH CYMERIADAU WEDI EU SELIO ARNOCH CHI? Oes.

PA UN YW EICH HOFF LYFR? Dyddiadur

Gbara oherwydd ei fod yn wir.

PA UN YW EICH HOFF GYMERIAD?

Blodwen Jones (Bywyd Blodwen Jones) a Sian Caerberllan (Amdani!)

OES UNRHYW BETH YR HOFFECH CHI EI NEWID AMDANOCH EICH HUNAN?

Fy nghoesau.

PA RAGLENNI TELEDU YW EICH FFEFRYNNAU?

Yr hen stff: cyfres gomedï o'r enw Cheers, rhaglen i blant o'r enw The Clangers a C'mon Midffild gan Mei Jones.

BETH YW EICH HOFF FWYD? Afocados,

taffis triog, ffrwythau ecsotig a bwyd Thai.

BETH SY'N GWNEUD I CHI CHWERTHIN?

Fy nai, Daniel, sydd bron yn bedair.



Ffotograffydd | Nigel Hughes



Bethan Gwanas

Mae gen i lygaid gwyrdd a smotiau brown kaleidoscopaidd, fel fy Nain. Dwi'n mwynhau chwaraeon ond dwi'n mwynhau bwyd hefyd, felly fydda i byth yn Kate Moss.

Dwi'n ofnadwy o annibynnol ac yn mwynhau fy nghwmni fy hun, ond eto'n mwynhau bod mewn cwmni difyr, ffraeth. Ac mae Mam yn dweud 'mod i'n annibynnol o'r cychwyn cyntaf. Fyddai hi ddim yn gwybod lle ro'n i hanner yr amser. Ro'n i'n domboi, yn byw a bod mewn coed, ac yn gleisiau a sgriffiadau rownd y rîl.

Cefais fy magu ar fferm, ac mae'n debyg mai ffarmwr fyddwn i petawn i wedi cael fy ngeni'n fachgen. Ond dwi'n mwynhau bod yn ferch a dwi'n mwynhau bod yn awdures. Mi gefais blentyndod bendigedig efo dwy chwaer a brawd a'r rhyddid i grwydro cefn gwlad. Ro'n i wrth fy modd yn chwarae gêmâu dychmygol, ac mae'n debyg mai byw mewn byd o ffantasi fûm i erioed. Ond diffyg synnwyr cyffredin mae Mam yn galw hynny.

Ro'n i wrth fy modd yn sgwennu straeon yn yr ysgol, a dwi wrth fy modd yn darllen llyfrau o bob math. Ro'n i'n mwynhau dysgu ieithoedd hefyd, a


Ffrangeg astudiais i yn y coleg. Felly cefais fyw yn Ffrainc am flwyddyn, ac wedyn es i draw i Nigeria i weithio gyda VSO am ddwy flynedd. 'Nôl i Gymru wedyn a chael swydd gyda Radio Cymru, a dechrau chwarae rygbi. 'Nôl i'r coleg wedyn i ddysgu bod yn athrawes Ffrangeg a gweithgareddau awyr agored, a dysgu am dair blynedd cyn gweithio i'r Urdd yng Nglan-llyn. 'Nôl i'r cyfryngau eto, a chael ysgoloriaeth i sgwennu nofel am ferched yn chwarae rygbi. A dwi heb stopio sgwennu ers hynny.

(Bellach, dwi wedi symud yn ôl i Feirionnydd at fy nheulu a'm hen ffrindiau, a dwi'n byw mewn hen dŷ cerrig gyda gardd fendigedig a llond gwlad o fywyd gwyllt. Dwi'n sgwennu rywfaint bob dydd, ac mae bywyd yn braf – er gwaetha'r llygod, y tyllau yn y waliau a'r dŵr brown sy'n dod drwy'r tap.)

Llyfrau gan Bethan Gwanas



Amdani!
(1999)
Y Lolfa
£5.95



Llinyn Trôns
(2000)
Enillydd Gwobr
Tir na n-Og 2001
Y Lolfa £4.95



**Bywyd
Blodwen
Jones** (2000)
Gomer £3.50

Dyddiadur Gbara
(1997) Gwasg Carreg-
Gwalch £4.95

**Blodwen Jones a'r
Aderyn Prin** (2001)